GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Y FANYLEB PERSON

ADRAN	Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
TEITL Y SWYDD	Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth
RHIF Y SWYDD	505285
GRADD	11
LLEOLIAD	Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llantrisant

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir** ac a nodir â seren***** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

Ffactor	**Tystiolaeth**	**Hanfodol/ Dymunol**	**Dull Canfod**
Cymwysterau	**Cymhwyster ar lefel gradd, mewn pwnc perthnasol ardystiad proffesiynnol a/neu brofiad perthnasol i mewn Diogelu Data. ***	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/** Proses Ddethol
Gwybodaeth/ Profiad	**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth Diogelu Data a'i gweithredu o fewn y Sector Cyhoeddus.***	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/** Proses Ddethol
	Gwybodaeth ymarferol o Ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. *	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais*/** Proses Ddethol
	Profiad o roi cyflwyniadau hyfforddi a/neu hwyluso gweithdai hyfforddi.	Hanfodol	Y Broses Ddethol
	Profiad o ysgrifennu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau sefydliadol.	Dymunol	Y Broses Ddethol
Arddull Bersonol	**Y gallu i weithio mewn cydymffurfiaeth lwyr â pholisïau gweithredol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir. ***	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais***/ Broses Ddethol
	Bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo newid, ac â'r gallu i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo effeithiolrwydd gweithredol gwell.	Hanfodol	Y Broses Ddethol

	Y gallu i gyflwyno a hyrwyddo agwedd hyderus, trefnus a chanolbwyntiedig mewn sefyllfaoedd hynod heriol yn gyson. Y gallu i hyrwyddo a rheoli amrywiaeth ac arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa.	Hanfodol Hanfodol	Y Broses Ddethol Y Broses Ddethol
Rhyngbersonol	**Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaoedd, gan gynnwys datblygu a chyflwyno hyfforddiant a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. *** Yr ymrwymiad a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion a thimau, i wella effeithiolrwydd gweithredol. Y gallu i arwain, cynnwys ac ysgogi eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub.	**Hanfodol*** Hanfodol Hanfodol	**Ffurflen Gais*/** Y Broses Ddethol Y Broses Ddethol Y Broses Ddethol
Tasg	**Y gallu i greu a gweithredu cynlluniau effeithiol i ddarparu ystod o amcanion sefydliadol. *** Y gallu i ddeall a gweithredu gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau addas sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a gofynion allweddol. Y gallu i adnabod effaith a goblygiadau gwleidyddol posib o safbwynt strategol.	**Hanfodol*** Hanfodol Hanfodol	**Ffurflen Gais*/** Y Broses Ddethol Y Broses Ddethol Y Broses Ddethol

Bydd angen archwiliad estynedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) mewn achos cais llwyddiannus. Ni fydd meddu ar gofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i chi dderbyn swydd.

Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio achlysurol rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.